# Darparu Tai Fforddiadwy 2023-24

**Mae Llywodraeth Cymru yn casglu'r data yma.**

Dewiswch eich iaith penodol / Choose your preferred language: Cymraeg/Welsh

## Gwybodaeth am y darparwr

Dewiswch eich awdurdod lleol o'r rhestr a ddarparwyd: Dewiswch

## Dilysiant

| Dolennau | Wedi ei gwblhau |
|---|---|
| Canllawiau >> | |
| Manylion Cyswllt >> | 0% |
| Byrdwn wrth Ymateb Arolygon >> | 0% |

| Dolennau ffurflen | Tabl wedi ei gwblhau |
|---|---|
| Tabl 1 >> | 14% |
| Tabl 2 >> | 20% |
| Tabl 3a >> | 0% |
| Tabl 3b >> | 0% |
| Tabl 4 >> | 40% |

**Dychwelwch y ffurflen trwy Objective Connect cyn 21 Mehefin 2024**

https://secure.objectiveconnect.co.uk

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch:**

E-bost: casgliadautai@llyw.cymru

ystadegau ar gyfer cymru statistics for wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Fersiwn 2 - 15/09/20

## Canllawiau Cyffredinol



## Canllawiau i gwblhau’r ffurflen

**Diffiniadau**

Cynhwyswyd rhestr lawn o'r diffiniadau a ddefnyddiwyd ac awgrymwn y dylech eu darllen yn ofalus cyn dechrau llenwi'r ffurflen.

**Monitro byrdwn wrth ymateb arolygon**

Mae Llywodraeth Cymru’n monitro’r baich a roddwyd ar yr Awdurdodau Lleol sy’n cwblhau’r casgliad data hwn. Pwrpas hyn yw sicrhau ein bod yn cadw cydbwysedd rhwng lleihau’r baich a roddir ar ddarparwyr data a darparu gwybodaeth ddefnyddiol i fodloni gofynion defnyddwyr.

Ar ôl i chi gwblhau a gwirio pob adran o'r ffurflen yma, cwblhewch y tabl ar dudalen 'SRB/byrdwn wrth ymateb arolygon'.

| | |
|---|---|
| **Ychwanegol** | Dim ond unedau ychwanegol y dylid eu cynnwys. Peidiwch ag ystyried unrhyw unedau tai a gollwyd drwy eu dymchwel neu eu gwerthu drwy gynlluniau 'hawl i brynu' neu 'hawl i gaffael' oherwydd caiff y rhain eu cyfrif mewn ymarferion ar wahân. Ar gyfer unedau fforddiadwy a addaswyd, dylid dangos nifer yr unedau ychwanegol, h.y. yr enillion net. Er enghraifft, lle caiff un tŷ i'r teulu ei droi'n llety a rennir ar gyfer tri meddiannydd, ceir dwy uned ychwanegol.<br><br>**Dylid cynnwys:**<br>• Pob uned tai fforddiadwy ychwanegol p'un a yw'n cael ei darparu drwy gynllun adeiladu tai newydd neu drwy brynu, prydlesu neu addasu unedau sy'n bodoli eisoes.<br>**Ni ddylid cynnwys:**<br>• Unedau fforddiadwy sy'n bodoli eisoes a gafodd eu hadnewyddu neu eu hailwampio oherwydd nid ystyrir eu bod yn rhai ychwanegol;<br><br>• Ni ddylid cofnodi ffigurau negyddol lle cafwyd colled net o unedau fforddiadwy yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, os caiff dwy fflat hunangynhwysol mewn un eiddo eu troi'n un cartref i'r teulu, bydd nifer yr unedau ychwanegol yn cyfateb i sero oherwydd bod llai o unedau fforddiadwy. |
| **Dai fforddiadwy** | Fel y'i disgrifir yn Nodyn Cyngor Technegol 2. Mae hyn yn berthnasol i dai lle mae yna fecanweithiau diogel i sicrhau eu bod ar gael i'r rheini na allant fforddio tai'r farchnad, a hynny at ddibenion meddiannaeth gyntaf a meddianwyr dilynol. Efallai y bydd rhai cynlluniau yn ei gwneud yn bosibl cynyddu cyfran perchentyaeth i berchnogaeth lawn. Lle bydd hyn yn digwydd, rhaid cael trefniadau diogel i sicrhau bod cyfalaf yn cael ei ailgylchu i ddarparu tai fforddiadwy eraill. Gellir ailgylchu cyfalaf drwy gyfamodi'r eiddo i roi'r cyfle i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig brynu'r eiddo yn ôl unwaith daw ar y farchnad agored<br><br>Mae tai fforddiadwy yn perthyn i ddau is-gategori:<br>• Tai rhent cymdeithasol;<br>• Tai canolradd - sy'n cynnwys tai rhent canolradd a thai ecwiti a rennir.<br><br>Mae tai rhent canolradd yn cynnwys eiddo lle mae'r rhent yn uwch na thai rhent cymdeithasol ond yn is na rhent tai ar y farchnad.<br><br>**Dylid cynnwys:**<br>• Tai fforddiadwy a ddarperir ar safleoedd a neilltuwyd a safleoedd ar hap a ddiogelwyd o dan gytundeb Adran 106, amodau cynllunio neu ddull priodol arall;<br>• Tai fforddiadwy a ddarperir ar safleoedd a neilltuwyd ar gyfer tai fforddiadwy yn unig;<br>• Tai fforddiadwy a ddarperir ar safleoedd eithriedig tai fforddiadwy;<br>• Tai fforddiadwy a ddarperir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lle prynwyd y safle ar y farchnad agored heb ddefnyddio cytundeb Adran 106;<br>• Eiddo newydd ac eiddo wedi'i addasu lle cafwyd enillion net o ran tai fforddiadwy;<br>• Pob math arall o unedau tai fforddiadwy a ddarperir drwy system gynllunio.<br>• Pob math arall o dai fforddiadwy.<br>**Ni ddylid cynnwys:**<br>• Anheddau â phrydles sy'n llai na blwyddyn o hyd;<br>• Tai sy'n mynd am bris isel ar y farchnad, h.y. tai lle dim ond y meddiannydd cyntaf a gaiff ostyngiad;<br>• Adnewyddu tai fforddiadwy sy'n bodoli eisoes sy'n perthyn i'r un ddeiliadaeth;<br>• Caffael stoc gymdeithasol sy'n bodoli eisoes, er enghraifft drwy drosglwyddo stoc o awdurdod lleol.<br>• Unedau o dan y Cynllun Cymorth i Brynu |
| **safleoedd eithriedig gwledig** | Lle bydd awdurdod cynllunio lleol wedi nodi diffyg tai fforddiadwy, rhaid iddo ystyried cynnwys polisi safleoedd eithriadol ar gyfer tai fforddiadwy yn ei gynllun datblygu, yn nodi'r amgylchiadau lle gellir rhyddhau safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy yn unig er mwyn diwallu anghenion lleol fel eithriad i'r polisïau ar gyfer y ddarpariaeth dai gyffredinol. |
| **Ardal** | Noder mai dim ond unedau o fewn ardal eich awdurdod y dylid eu cynnwys. Dylai unrhyw unedau a ddarperir yn eich ardal gan awdurdodau eraill gael eu cynnwys, ond ni ddylid cynnwys y rhai a ddarperir gan eich awdurdod y tu allan i'ch ardal. Os bydd ardal eich awdurdod lleol yn cynnwys rhan o Barc Cenedlaethol, dylid rhannu'r data rhwng gweithgarwch y tu mewn a'r tu allan i ardal y Parc Cenedlaethol. |
| **Addasiadau** | Caiff unedau eu haddasu pan fydd un uned yn cael ei throi'n sawl uned neu pan fydd sawl uned yn cael eu troi'n un uned.<br>At ddibenion y casgliad data hwn, dim ond y nifer ychwanegol o unedau ar ôl eu haddasu y dylid eu cynnwys – hy y cynnydd net.<br>Er enghraifft, lle bydd 1 cartref teulu wedi'i addasu'n 2 uned annibynnol, nifer yr unedau fforddiadwy ychwanegol yw 1.<br>Er enghraifft, byddai 10 uned tai fforddiadwy sy'n cael eu haddasu'n 5 uned tai fforddiadwy yn ystod y flwyddyn yn cyfrif fel 0, gan na ddarparwyd unrhyw unedau tai fforddiadwy ychwanegol. |
| **Cyflenwyd** | Dylid ystyried bod 'cyflenwyd' yn golygu bod yr uned ar gael i'w meddiannu. |
| **'Uned'** | • Annedd hunangynhwysol sy'n darparu un ystafell gyfanheddol o leiaf, gyda chegin, ystafell ymolchi/cawod, sinc a thoiled at ddefnydd y meddiannydd yn unig.<br><br>• Mewn tai a rennir, bydd uned yn gysylltiedig â nifer y gwelyau neu ystafelloedd gwely a ddarperir at ddefnydd y meddiannydd yn unig, neu at ddefnydd teulu yn achos hosteli neu lochesi. Er enghraifft, gall un tŷ ddarparu llety â chymorth ar gyfer tri meddiannydd - caiff pob meddiannydd ei ystafell wely ei hun ac mae'n rhannu lolfa, cegin a chyfleusterau ymolchi. |
| **Deiliadaeth Niwtral** | Os na fydd deiliadaeth yr uned yn hysbys cyn iddi gael ei meddiannu nodwch ddeiliadaeth debygol yr uned gorau y gallwch. |
| **Cynlluniwyd** | Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw unedau tai fforddiadwy ychwanegol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ac y bwriedir eu cyflenwi yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol - 2024-25 |
| **Unedau Prydlesu yn y Sector Preifat** | Unedau tai yw'r rhain sydd wedi'u prydlesu o'r sector preifat i ddarparu llety i deuluoedd digartref lle mae'r brydles am fwy na blwyddyn. |
| **Unedau a ddarperir yn uniongyrchol gan y Sector Preifat** | Mae'r rhain yn dai / unedau fforddiadwy a ddarperir drwy'r system Gynllunio gan ddatblygwyr preifat e.e. drwy Adran 106. |
| **Blwyddyn** | Mae angen cael gwybodaeth am flynyddoedd ariannol sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill ac 31 Mawrth bob blwyddyn.<br>Ar gyfer 2023-24, dylid dangos nifer wirioneddol yr unedau tai a ddarparwyd.<br>Ar gyfer 2024-25 dylid dangos nifer yr unedau a ragwelir.<br><br>Cydnabyddir mai amcangyfrifon fydd y ffigurau hyn ac y byddant yn newid. Dylid amcangyfrif ffigurau o Ddatganiadau Cyflenwi Tai Fforddiadwy, Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai, strategaeth dai leol neu ffynonellau priodol eraill. |

## Canllawiau Technegol



Canllawiau ar sut i gwblhau'r ffurflen

**Llywio**

Defnyddiwch y cysylltiadau a ddarperir er mwyn symud o un adran i'r llall.

Er enghraifft, cliciwch y ddolen '< < Hafan' i fynd yn ôl i'r hafan.

**Celloedd lle y disgwilir i chi darparu eitemau data.**

Pan gewch y daenlen, lliwir y celloedd lle disgwylir i chi ddarparu eitemau data.

Lliwir y celloedd lle disgwylir i chi ddarparu eitemau data yn las golau.

Mae rhai celloedd yn deillio gwerthoedd o eitemau data eraill. Lliwir y celloedd hyn gyda llwyd. Ni chaniateir i chi fewnosod data yn y celloedd hyn.

Nid oes angen cwblhau rhai celloedd gan eu bod yn amherthnasol. Lliwiau'r celloedd yma yw llwyd tywyll. Ni allwch gofnodi data i'r celloedd hyn.

**Sylwadau**

Darperir bwlch gwyn gyferbyn â phob tabl er mwyn rhoi sylwadau.  Os oes unrhyw eitem ddata ar goll, disgwylir i chi ddarparu sylwad.

**Dilysiad 1**

Mae Dilysiad 1 yn cynnwys chwilio am wallau sylfaenol. Mae’n rhaid dileu’r gwallau hyn cyn cyflwyno’r daenlen trwy AFON.

✓ Bydd eitemau data sy'n pasio dilysiant wedi eu lliwio'n wyrdd.

✗ Lle nad oes eitemau data wedi eu cofnodi neu lle mae gwall dilysu byddent yn cael eu lliwio'n goch. Mae angen cofnodi sero os taw dim i'r cofnod, neu mae angen gwneud sylwadau.

# Manylion Cyswllt

**<< Canllawiau** **BYA >>**

Rhowch fanylion cyswllt eich awdurdod neu RSL isod. Bydd hyn yn ein helpu ni i gyfeirio unrhyw ymholiadau at y cyswllt cywir

**Ffurflen wedi'i chwblhau gan/Prif gyswllt ymholiadau data:**

| | | D1 |
|---|---|---|
| Enw | | ✘ |
| Rhif ffôn | | ✘ |
| Cyfeiriad e-bost | | ✘ |

**Manylion cyswllt arall**

| | | |
|---|---|---|
| Enw | | ✘ |
| Rhif ffôn | | ✘ |
| Cyfeiriad e-bost | | ✘ |

## Byrdwn wrth Ymateb Arolygon

Dewiswch

< Manylion Cyswllt    Tabl 1 >

**Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r baich cwblhau'r ffurflenni data. Mae hyn yn ein helpu ni i gynllunio newidiadau yn y dyfodol i ffurflenni casglu data. Fe fyddem yn gwerthfawrogi os gallech chi ein helpu ni drwy gwblhau'r tabl isod.**

Cofnodwch yr amser a gymerodd i chi (ac unrhyw gydweithwyr) ddarparu ac anfon y ffurflen. Efallai bod nifer o staff sydd wedi'u cyflogi mewn swyddi gwahanol wedi cymryd rhan. Rydym yn gofyn i chi gyfrif yr oriau mae staff wedi'u dreulio ar gyfer pob band cyflog blynyddol cyfwerth ag amser llawn wedi'i ddangos isod. Fe fyddwch angen talgrynnu cyflogau staff i'r £1,000 agosaf. Cofnodwch eich amser i'r awr agosaf.

Nodwch nifer yr oriau wedi'u cymryd i gwblhau'r ffurflen hon fesul gradd pob aelod o staff:

- Adalw a chadw'r ffurflen wag;
- Casglu, coladu, dadansoddi ac agregu cofnodion ffigyrau sydd angen;
- Llenwi, gwirio, diwygio, adolygu ac, ar ôl ei gwblhau, cymeradwyo'r ffurflen; ac
- Anfon y ffurflen trwy Objective Connect.

| Gradd y staff | Oriau wedi'u cymryd | D1 |
|---|---|---|
| Band 1 (£11,500 - £19,999) | | ✘ |
| Band 2 (£20,000 - £26,999) | | ✘ |
| Band 3 (£27,000 - £33,999) | | ✘ |
| Band 4 (£34,000 - £53,999) | | ✘ |
| Band 5 (£54,000+) | | ✘ |

**Sylwadau**

## Tabl 1 - Pob uned tai fforddiadwy ychwanegol



Dylai'r adran hon gynnwys pob uned tai fforddiadwy ychwanegol gan gynnwys anghenion cyffredinol, tai â chymorth, llety gwarchod ac unedau gofal ychwanegol. Dylai pob uned tai fforddiadwy ychwanegol gael ei chynnwys p'un ai drwy gynllun adeiladu tai newydd neu drwy brynu, prydlesu neu addasu anheddau sy'n bodoli eisoes. Os yw ardal eich awdurdod lleol yn cynnwys rhan o Barc Cenedlaethol, dylid rhannu'r data rhwng y tu mewn a'r tu allan i ardal y Parc Cenedlaethol.

**Noder: CGC = Cyllid Grant Cyfalaf. O dan CGC, dylech gynnwys pob uned a ddarperir drwy unrhyw grant cyfalaf a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, ee Grant Tai Cymdeithasol, Grant Tai Cymdeithasol wedi'u hailgylchu, Grant Cyllid Tai, Rhanberchnogaeth – Cymru, Y Gronfa Tai â Gofal (CTG), Rhaglen Tai Arloesol (RhTA), Y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, Cynllun Lesio Cymru, Trawsnewid Trefi, Cronfa Datblygu'r Tir ac Adeiladau, Benthyciadau Datblygu i LCC a Grant Cartrefi Gwag. Er mwyn osgoi cyfrif dwbl mewn achosion lle defnyddiwyd mwy nag un ffrwd cyllid grant cyfalaf, cofnodwch yr uned a ddarperir gan ddefnyddio'r ffrydiau cyllid gwahanol hyn unwaith yn unig.**

| | **Gweithgaredd Awdurdod Lleol** | | 2023-24 Cyflenwyd | | 2024-25 Cynlluniwyd | | **Dilysiant** | | | | | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gydag AGC | Dim AGC | Gydag AGC | Dim AGC | | | | | | |
| 1 | Llety anghenion cyffredinol | Y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | | |
| 2 | | Y tu allan i'r Parc Cenedlaethol | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | | |
| 3 | Pob math arall o dai | Y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | | |
| 4 | | Y tu allan i'r Parc Cenedlaethol | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | | |
| **5** | **Cyfanswm** | | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✘ | |
| 6 | Faint ohonynt a ddarperir drwy gynllun adeiladu tai newydd | | | | | | ✘ | ✘ | | | | |
| 7 | Faint ohonynt a ddarperir drwy ddulliau eraill (e.e. derbyniadau, addasiadau) | | | | | | ✘ | ✘ | | | | |

| | **Pob gweithgaredd arall** (yn cynnwys gweithgaredd Awdurdod lleol uchod, LCC ac eraill) | | 2023-24 Cyflenwyd | | 2024-25 Cynlluniwyd | | **Dilysiant** | | | | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gydag AGC | Dim AGC | Gydag AGC | Dim AGC | | | | | |
| 8 | Llety anghenion cyffredinol | Y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | |
| 9 | | Y tu allan i'r Parc Cenedlaethol | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | |
| 10 | Pob math arall o dai | Y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | |
| 11 | | Y tu allan i'r Parc Cenedlaethol | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | |
| **12** | **Cyfanswm** | | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| 13 | O'r rhain sy'n unedau prydlesu sector preifat | | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | |
| 14 | Faint ohonynt a ddarperir o ganlyniad i ddatblygiad yn y sector preifat | | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | |
| 15 | Faint ohonynt a ddarperir gan 'Eraill' (rhowch fwy o wybodaeth isod) | | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | |

**Sylwadau**

## Tabl 1 Canllawiau



| | |
|---|---|
| 1.01 | Dylai'r adran hon gynnwys pob uned tai fforddiadwy ychwanegol gan gynnwys anghenion cyffredinol, tai â chymorth, tai gwarchod a thai nad ydynt yn dai gwarchod ar gyfer pobl hŷn ac unedau gofal ychwanegol. Mae'r math o ddarparwr yn cyfeirio at y sefydliad sy'n berchen ar y cartrefi. Gallai olygu'r sefydliad sy'n eu darparu i ddechrau neu'r sefydliad sy'n eu rheoli. |
| 1.02 | Dylai pob uned tai fforddiadwy ychwanegol gael ei chynnwys p'un a gaiff ei darparu drwy gynllun adeiladu tai newydd neu drwy brynu prydlesu neu addasu anheddau sy'n bodoli eisoes. |
| 1.03 | Dim ond at unedau y mae ALl (Cyngor) yn berchen arnynt y mae Cwestiynau 1 i 7 yn cyfeirio.<br>Mae Cwestiynau 8 i 15 yn cwmpasu pob uned fforddiadwy ychwanegol waeth beth fo'r ddeiliadaeth ac yn cynnwys y rhai y mae ALl, LCC a'r sector preifat yn berchen arnynt/yn eu darparu |
| 1.04 | **Ychwanegol**<br>Dim ond unedau ychwanegol y dylid eu cynnwys. Peidiwch ag ystyried unrhyw unedau o dai a gollwyd drwy eu dymchwel neu eu gwerthu drwy gynlluniau 'hawl i brynu' neu 'hawl i gaffael' oherwydd caiff y rhain eu cyfrif mewn ymarferion ar wahân. |
| 1.05 | **Ardal**<br>Noder mai dim ond unedau o fewn ardal eich awdurdod y dylid eu cynnwys. Dylai unrhyw unedau a gaiff eu darparu yn eich ardal gan awdurdodau lleol eraill gael eu cynnwys, ond ni ddylai'r rhai a ddarperir gan eich awdurdod y tu allan i'ch ardal gael eu cynnwys.<br>Os yw ardal eich awdurdod lleol yn cynnwys rhan o Barc Cenedlaethol, dylid rhannu'r data rhwng y tu mewn a'r tu allan i ardal y Parc Cenedlaethol. |
| 1.06 | **Cyflenwyd**<br>Diffinnir bod annedd wedi'i chyflenwi pan fydd ar gael i'w meddiannu. |
| 1.07 | **Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol (Cyngor)**<br>Dylai gynnwys pob uned ychwanegol y mae'r awdurdod lleol yn berchen arni ac yn ei gosod ar rent. Dim ond yr unedau y mae'r awdurdod lleol yn berchen arnynt neu y bydd yn berchen arnynt y dylid eu cynnwys. |
| 1.08 | Anghenion cyffredinol: - Mae'r rhain yn cynnwys unedau hunangynhwysol nas cedwir ar gyfer grwpiau penodol o gleientiaid. Dylai eiddo a addasir at ddefnydd pobl anabl gael ei gynnwys os na chaiff unrhyw wasanaethau na chymorth ychwanegol eu darparu fel rhan o delerau'r feddiannaeth. |
| 1.09 | Pob math arall o dai: Tai a ddarperir at ddefnydd grwpiau penodol o gleientiaid neu at ddibenion penodol. |
| 1.10 | **Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol ar gyfer pob deiliadaeth.**<br>Bydd hyn yn cynnwys unedau a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol (Cyngor), gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a hefyd gan sefydliadau eraill (e.e. sefydliadau tai dan arweiniad y gymuned, y sector preifat). |
| 1.11 | **Dylid cynnwys:**<br>• Pob uned ychwanegol y mae'r awdurdod lleol (Cyngor) yn berchen arni ac yn ei gosod ar rent.<br>• Pob uned ychwanegol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol drwy Grant Tai Cymdeithasol.<br>• Pob uned ychwanegol o ddarparwyd gan yr awdurdod lleol drwy drefniadau 'Ecwiti a Rennir'.<br>• Pob uned ychwanegol a gaffaelwyd ac a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol drwy'r 'Cynllun Achub Morgeisi'.<br>• Pob uned tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd gan awdurdodau lleol drwy gaffael unedau tai gwag yn y sector preifat 'nad oeddent yn fforddiadwy' cyn hynny.<br>• Pob uned tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig am rent cymdeithasol.<br>• Pob uned ychwanegol a ddarparwyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig am rent canolradd.<br>• Pob uned tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig drwy drefniadau 'Ecwiti a Rennir'.<br>• Pob uned ychwanegol a gaffaelwyd ac a ddarparwyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig drwy'r 'Cynllun Achub Morgeisi'.<br>• Pob uned tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig drwy gaffael unedau tai gwag yn y sector preifat 'nad oeddent yn fforddiadwy' cyn hynny.<br>• Pob uned tai fforddiadwy ychwanegol nad yw'n annedd ALl nac yn annedd Landlord Cymdeithasol Cofrestredig gan gynnwys y rhai y mae landlordiaid cymdeithasol anghofrestredig, datblygwyr sector preifat a grwpiau cymunedol yn berchen arnynt e.e. Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol. Gall y grwpiau hyn reoli'r cartref neu drefnu i eraill wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys cartrefi nad ydynt yn eiddo i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a gaiff arian grant ac na chânt arian grant. Dim ond os ydynt yn 'Fforddiadwy' yn ôl diffiniad Nodyn Cyngor Technegol 2 (gweler y daflen Diffiniadau) y dylid cynnwys y rhain.<br>• Dylai unedau tai ychwanegol a ddarparwyd trwy gynlluniau gofal ychwanegol yn cael eu cynnwys lle gellir osod ar denantiaethau neu werthu drwy rannu ecwiti. Ni ddylai cartrefi gofal preswyl neu dai sy'n darparu gofal preswyl nyrsio gael eu cynnwys. |
| 1.12 | **Ni ddylid cynnwys:**<br>• Stoc gymdeithasol sy'n bodoli eisoes a gaffaelwyd;<br>• Stoc dai sy'n bodoli eisoes a drosglwyddwyd o awdurdodau lleol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.<br>• Unedau lle mae’r deiliadaeth yn newid o un ffurf fforddiadwy i un arall, e.e. o rhentu cymdeithasol i rannu ecwiti neu i'r gwrthwyneb.<br>• Unedau o dan y Cynllun Cymorth i Brynu |
| 1.13 | Noder: ni ddylai'r cyfansymiau a ddangosir ar gyfer nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol ar gyfer pob deiliadaeth byth fod yn llai na'r cyfanswm a ddangosir ar gyfer yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol (Cyngor) yn unig. |
| 1.15 | **Unedau a ddarperir yn uniongyrchol gan y Sector Preifat**<br>Mae'r rhain yn dai / unedau fforddiadwy a ddarperir drwy'r system Gynllunio gan ddatblygwyr preifat e.e. drwy Adran 106. |

# Tabl 2 - Unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd ar dir a neilltuwyd gan y Sector Cyhoeddus

<< Tabl 1 | Tabl 2 Canllawiau > | Tabl 3a >>

Dylai'r holl unedau tai a gofnodir yn yr adran hon cael eu cofnodi yn Nhabl 1 hefyd.

**Noder: CGC = Cyllid Grant Cyfalaf. O dan CGC, dylech gynnwys pob uned a ddarperir drwy unrhyw grant cyfalaf a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, ee Grant Tai Cymdeithasol, Grant Tai Cymdeithasol wedi'u hailgylchu, Grant Cyllid Tai, Rhanberchnogaeth – Cymru, Y Gronfa Tai â Gofal (CTG), Rhaglen Tai Arloesol (RhTA), Y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, Cynllun Lesio Cymru, Trawsnewid Trefi, Cronfa Datblygu'r Tir ac Adeiladau, Benthyciadau Datblygu i LCC a Grant Cartrefi Gwag. Er mwyn osgoi cyfrif dwbl mewn achosion lle defnyddiwyd mwy nag un ffrwd cyllid grant cyfalaf, cofnodwch yr uned a ddarperir gan ddefnyddio'r ffrydiau cyllid gwahanol hyn unwaith yn unig.**

| | | | 2023-24 Cyflenwyd | | 2024-25 Cynlluniwyd | | **Dilysiant** | | | | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gydag AGC | Dim AGC | Gydag AGC | Dim AGC | | | | | |
| 1 | Awdurdod Lleol | Y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | |
| 2 | | Y tu allan i'r Parc Cenedlaethol | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | |
| 3 | Sector Cyhoeddus Arall | Y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | |
| 4 | | Y tu allan i'r Parc Cenedlaethol | | | | | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | |
| 5 | **Cyfanswm** | | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |

**Sylwadau**

# Tabl 2 Canllawiau

2.1 Mae'r tabl hwn yn ceisio gwybodaeth am y graddau y mae'r sector cyhoeddus yn rhyddhau ei dir ei hun er mwyn darparu mwy o dai fforddiadwy. Dylai'r holl unedau a gofnodir yma fod wedi'u cynnwys eisoes yn Nhabl 1.

2.2 Noder: Dim ond gwybodaeth am dir a ryddhawyd gan y sector cyhoeddus yn y 5 mlynedd diwethaf y byddem yn ei disgwyl.

2.3 Peidiwch â chynnwys gwybodaeth am dir a ryddhawyd gan y sector cyhoeddus cyn hynny

2.4 Dim ond unedau fforddiadwy ychwanegol ar dir a waredwyd gan y sector cyhoeddus y dylid eu cynnwys.

2.5 Gallai'r unedau fforddiadwy fod wedi cael eu darparu o dan gytundeb cynllunio adran 106.

2.6 Gallai'r tir fod wedi ei werthu am bris y farchnad, am bris gostyngol neu gallai fod wedi ei drosglwyddo am ddim cost o gwbl.

2.7 Dylid defnyddio rhesi 1 a 2 i gofnodi'r unedau a ddarparwyd ar dir a ryddhawyd gan yr awdurdod lleol. Dylai hyn gynnwys tir a oedd yn arfer bod yn eiddo i ysgolion a gynhelir ac i Barciau Cenedlaethol.

2.8 Dylid defnyddio rhesi 3 a 4 i gofnodi'r unedau a ddarparwyd ar dir a ryddhawyd gan gyrff sector cyhoeddus eraill ac eithrio'r awdurdod lleol. Dylai hyn gynnwys tir a oedd yn arfer bod yn eiddo i:

- Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru;
- Adrannau Eraill yn y Llywodraeth Ganolog (gan gynnwys, er enghraifft, safleoedd yr oedd y Weinyddiaeth Amddiffyn neu Lysoedd yn arfer eu defnyddio);
- Ystadau Iechyd Cymru (yn cynnwys safleoedd Gwasanaeth Iechyd Gwladol a oedd yn arfer bod yn eiddo i Awdurdodau Iechyd, Ymddiriedolaethau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Ambiwlans etc);
- Heddluoedd/Awdurdodau'r Heddlu;
- a Gwasanaethau/Awdurdodau Tân ac Achub.

2.9 Cofnodwch dir a wnaed ar gael yn ôl meddiannwr diweddaraf y tir hwnnw cyn i'w drosglwyddo i'r asiantaeth sy'n darparu'r tai fforddiadwy.

## Tabl 3a – Y ddarpariaeth o dai fforddiadwy trwy ymrwymiadau neu amodau cynllunio



Dylid cofnodi unrhyw dai ychwanegol a ddarparwyd drwy rwymedigaethau neu amodau cynllunio a gofnodwyd yn Nhabl 1 yn y rhan hon hefyd.

**Cyfanswm nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol**

| | | 2023-24 | | Dilysiant | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A gafodd ganiatâd cynllunio | Cyflenwyd | | | |
| 1 | Trwy ymrwymiadau neu amodau cynllunio | | | ✘ | ✘ | |

Noder: caiff gwybodaeth am dai ychwanegol a ddarparwyd drwy rwymedigaethau neu amodau cynllunio gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ei chasglu ar wahân. Peidiwch â chynnwys gweithgarwch yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar y ffurflen hon.

**Sylwadau**

| |
|---|
| |

## Tabl 3a Canllawiau

Dewiswch

< Tabl 3a | Tabl 3b >

| | |
|---|---|
| **3.1** | Mae'r rhan hon yn gofyn am wybodaeth am bob uned tai fforddiadwy ychwanegol sydd wedi'i darparu'n benodol drwy rwymedigaethau cynllunio (cytundebau adran 106) neu amodau cynllunio, naill ai fel rhan o ddatblygiadau tai'r farchnad neu yn sgil datblygiadau o'r fath. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ymddiriedolaethau tir cymunedol a darpariaeth y sector preifat. Dylid cofnodi yn nhabl 3a hefyd unrhyw dai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd drwy rwymedigaethau neu amodau cynllunio, a gofnodwyd yn nhabl 1. |
| **3.2** | Cydnabyddir y gall rhywfaint o gyfrif dwbl ddigwydd. |
| **3.3** | Os rhoddwyd sawl caniatâd cynllunio ar gyfer yr un safle, rhowch wybodaeth am hyn yn y blwch a ddarparwyd ar gyfer 'Sylwadau'. |
| **3.4** | Caniatâd Cynllunio a roddwyd: cyfeirir at ganiatâd cynllunio terfynol, manwl (hy. nid caniatâd cynllunio amlinellol) a roddwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn golygu bod cytundeb 106 eisoes wedi'i lofnodi (lle bo hynny'n briodol). |
| **3.5** | Cyflenwyd: Mae'r golofn 'Cyflenwyd' yn gofyn am gyfanswm nifer yr unedau a gwblhawyd ac sydd ar gael i fyw ynddynt yn ystod y flwyddyn waeth p'un a roddwyd caniatâd yn ystod y flwyddyn neu mewn blwyddyn flaenorol. |
| **3.6** | Dim ond os yw tai anghenion lleol a sicrhawyd drwy gytundeb adran 106 â rhywun lleol hefyd yn fforddiadwy y dylid eu cynnwys. |
| **3.7** | Nodwch gyfanswm yr unedau y mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar eu cyfer, a chyfanswm yr unedau a gyflawnwyd trwy ymrwymiadau neu amodau cynllunio. |

## Tabl 3b – Y ddarpariaeth o dai fforddiadwy ar safleoedd eithrio tai fforddiadwy

Darparu Tai Fforddiadwy 2023-24
Dewiswch

< Tabl 3a | Tabl 3b Canllawiau > | Tabl 4 >>

Dylid cofnodi unrhyw dai ychwanegol a ddarparwyd drwy rwymedigaethau neu amodau cynllunio a gofnodwyd yn Nhabl 1 yn y rhan hon hefyd.

**Cyfanswm nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol**

| | | 2023-24 | | Dilysiant | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **A gafodd ganiatâd cynllunio** | **Cyflenwyd** | | | |
| 2 | Ar safleoedd eithriedig gwledig | | | ✘ | ✘ | |

Noder: caiff gwybodaeth am dai ychwanegol a ddarparwyd drwy rwymedigaethau neu amodau cynllunio gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ei chasglu ar wahân. Peidiwch â chynnwys gweithgarwch yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar y ffurflen hon.

**Sylwadau**

| |
|---|
| |

# Tabl 3b Canllawiau



| | |
|---|---|
| **3.1** | Mae'r rhan hon yn gofyn am wybodaeth am bob uned tai fforddiadwy ychwanegol sydd wedi'i darparu'n benodol ar safleoedd eithriadol ar gyfer tai fforddiadwy. Dylid cofnodi yn nhabl 3b hefyd unrhyw dai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd ar safleoedd eithriadol ar gyfer tai fforddiadwy, a gofnodwyd yn nhabl 1. |
| **3.2** | Cydnabyddir y gall rhywfaint o gyfrif dwbl ddigwydd. |
| **3.3** | Os rhoddwyd sawl caniatâd cynllunio ar gyfer yr un safle, rhowch wybodaeth am hyn yn y blwch a ddarparwyd ar gyfer 'Sylwadau'. |
| **3.4** | Caniatâd Cynllunio a roddwyd: cyfeirir at ganiatâd cynllunio terfynol, manwl (hy. nid caniatâd cynllunio amlinellol) a roddwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn golygu bod cytundeb 106 eisoes wedi'i lofnodi (lle bo hynny'n briodol). |
| **3.5** | Cyflenwyd: Mae'r golofn 'Cyflenwyd' yn gofyn am gyfanswm nifer yr unedau a gwblhawyd ac sydd ar gael i fyw ynddynt yn ystod y flwyddyn waeth p'un a roddwyd caniatâd yn ystod y flwyddyn neu mewn blwyddyn flaenorol. |
| **3.6** | Dim ond os yw tai anghenion lleol a sicrhawyd drwy gytundeb adran 106 â rhywun lleol hefyd yn fforddiadwy y dylid eu cynnwys. |
| **3.7** | Nodwch gyfanswm nifer yr unedau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer a chyfanswm nifer yr unedau a gwblhawyd ac a sicrhawyd ar safleoedd eithriadol ar gyfer tai fforddiadwy. |

Darparu Tai Fforddiadwy 2023-24

Dewiswch

## Tabl 4 - Cyfraniadau datblygwyr a gafwyd tuag at ddarparu tai fforddiadwy drwy rwymedigaethau cynllunio

<< Tabl 3b    Tabl 4 Canllawiau >

**Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£)**

Symiau mewn arian parod ac ar sail cyfrifyddu arian parod

| | | | Swm (£) | D1 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2022-23 | Cyfanswm ar ddiwedd y flwyddyn | #N/A | | |
| 2 | 2023-24 | Ar ddechrau'r flwyddyn | | ✘ | |
| 3 | 2023-24 | A gafwyd yn ystod y flwyddyn | | ✘ | |
| 4 | 2023-24 | A wariwyd yn ystod y flwyddyn | | ✘ | |
| 5 | 2023-24 | Cyfanswm ar ddiwedd y flwyddyn | £0.00 | | |

Noder - Dylai'r cyfanswm ar ddiwedd 2023-24 gyfateb i'r cyfanswm ar ddechrau 2023-24 yn ogystal â'r swm a gafwyd yn ystod 2023-24 llai y swm a wariwyd yn ystod 2023-24. Os nad yw hyn yn wir eglurwch pam yn y blwch isod ar gyfer sylwadau.

**Sylwadau**

## Tabl 4 Canllawiau

Darparu Tai Fforddiadwy 2023-24

Dewiswch

< Tabl 4 | Hafan

**4.1** Y rhagdybiaeth yn TAN 2 yw y caiff cyfraniadau datblygwyr tuag at dai fforddiadwy eu rhoi mewn da ac ar y safle. Fel eithriad, gall awdurdod cynllunio lleol gytuno ei bod yn well i ddatblygwr wneud cyfraniad ariannol neu fath arall o gyfraniad tuag at ddarparu tai fforddiadwy ar safle arall yn ardal yr awdurdod.

**4.2** Ymhlith yr enghreifftiau o fathau eraill o gyfraniadau mae recriwtio 'swyddog tai fforddiadwy' neu ariannu swyddog galluogi tai gwledig'. Lle y cytunir ar hyn caiff rhwymedigaethau cynllunio addas eu llunio.

**4.3** Dylai'r holl symiau fod mewn arian parod ac ar sail cyfrifyddu arian parod. Dangoswch gyfanswm y cyfraniadau ariannol ar ddechrau'r flwyddyn tuag at ddarparu tai fforddiadwy drwy bolisi cynllunio, cyfanswm y cyfraniadau ariannol a gafwyd yn ystod y flwyddyn, a chyfanswm y cyfraniadau ariannol a wariwyd.

**4.4** Noder - Dylai'r cyfanswm ar ddiwedd 2023-24 gyfateb i'r cyfanswm ar ddechrau 2023-24 yn ogystal â'r swm a gafwyd yn ystod 2023-24 llai y swm a wariwyd yn ystod 2023-24. Os nad yw hyn yn wir eglurwch pam yn y blwch isod ar gyfer sylwadau.